Fframwaith y Trydydd Sector

Trosolwg Byr o Lotiau

Rhif Lot	Categori Lot	Trosolwg Byr
1	**Osgoi derbyniad a chymorth rhyddhau** https://forms.office.com/r/upwqxgGHxU	Cefnogaeth i unigolion i atal derbyniadau i'r ysbyty, gan hwyluso rhyddhau cynharach, diogel. Bydd hyn yn cynnwys gofal cam-i-fyny a cham-i-lawr, gan sicrhau bod unigolion yn cael eu hailsefydlu yn eu cartrefi yn gysylltiedig â chymorth cymunedol
2	**Iechyd meddwl oedolion** https://forms.office.com/r/vX8sbbs3fL	Hyrwyddo a chefnogi iechyd meddwl a lles ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd meddwl amrywiol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau ymyriadol neu anymyriadol mewngymorth ac allgymorth, yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer cymorth ariannol, tai a chymorth byw o ddydd i ddydd.
3	**Canser a gofal lliniarol gan gynnwys pobl ifanc** https://forms.office.com/r/dw8CDWCddb	Darparu gofal nyrsio diwedd oes, lliniarol a chynlluniedig o ansawdd uchel i unigolion a'u gofalwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau mewngymorth ac allgymorth a chymunedol gyda darparu gwybodaeth a chymorth emosiynol i unigolion a gofalwyr.
4	**Gofalwyr** https://forms.office.com/r/5bWVz9PJMk	Rhoi cyngor, gwybodaeth berthnasol i ofalwyr, codi ymwybyddiaeth a chymorth i reoli eu rôl a'u cyfrifoldebau gofalu. Bydd hyn yn cynnwys mwy o wytnwch, cefnogi annibyniaeth gofalwyr trwy weithgareddau a digwyddiadau gwasanaethau cymorth gan gynnwys gwasanaeth eistedd.
5	**Plant a phobl ifanc** https://forms.office.com/r/1N4mPEVYTR	Diwallu anghenion plant a phobl ifanc ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae hwn yn faes amrywiol a bydd yn cynnwys cymorth iechyd a lles emosiynol i blant a phobl ifanc yn ogystal â gwasanaethau cymorth i blant ag anabledd. Mae cyflwyno'r Siarter Hawliau Plant ar draws y Bwrdd Iechyd a chefnogi pobl ifanc i weithredu fel cynrychiolwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

6	**Ymateb brys** https://forms.office.com/r/LWM7jzTZbe	Darparu cymorth hyblyg a pherthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw argyfyngau a nodwyd oherwydd amgylchiadau annisgwyl megis argyfwng COVID-19, parhad busnes, pwysau'r gaeaf. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant, darparu gwasanaethau neu gyfleoedd yn ôl yr angen i ddiwallu'r angen.
7	**Gwybodaeth gyffredinol, cyngor, cefnogaeth a chwnsela** https://forms.office.com/r/RLJQWYgPSy	Darparu ystod o wasanaethau i gefnogi pobl i fyw bywydau iach, boddhaus. Mae'r categori yn canolbwyntio ar gynnig gwasanaethau yn gynnar er mwyn lleihau ymyriadau yn ddiweddarach. Mae hyn yn cynnwys cwnsela, perthnasoedd, cymorth profedigaeth, budd-daliadau lles, cyflogaeth, perthnasoedd, gwybodaeth defnyddwyr a thai, hygyrchedd ac ati.
8	**Anableddau dysgu** https://forms.office.com/r/pwjJs3AJay	Diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol sydd â phryderon am blant neu oedolion sydd ag neu a allai fod ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anabledd / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
9	**Newid ffordd o fyw ac iechyd y boblogaeth** https://forms.office.com/r/zcrrUw88JQ	Rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth perthnasol i bobl i fyw bywyd iach a gwella ansawdd bywyd, gan gynnwys rheoli cyflwr. Mae cael gwasanaethau yn lleol ac o fewn y gymuned yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael eu gweld a'u trin yn gynnar ac mewn lleoliad cyfleus. Mae'r categori yn agor ei hun i'r posibilrwydd o addysgu pobl a rhoi'r wybodaeth gymharol i sicrhau gwell mynediad at wasanaethau ac ymyriadau cynharach.
10	**Iechyd meddwl pobl hŷn gan gynnwys dementia** https://forms.office.com/r/ripA0mr1Mh	Diwallu anghenion pobl hŷn ag anghenion iechyd meddwl a dementia yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chymorth i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.
11	**Cyfranogiad, cydgynhyrchu a hwyluso** https://forms.office.com/r/gcDwyLmuFf	Cefnogi pobl i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu gofal, eu cymuned a darpariaeth gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i gleifion yn yr ardal reoli eu

		hiechyd a'u lles drwy gymryd rhan weithredol mewn cynlluniau a grwpiau sy'n canolbwyntio ar fyw ffordd iach o fyw, i feithrin cysylltiadau â phobl eraill a dod yn rhan o'r gwaith o gydgynhyrchu'r gwasanaethau a ddarperir.
12	**Strôc** https://forms.office.com/r/M7Zn27zqgE	Diwallu anghenion pobl sydd wedi cael strôc yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol a'r siwrnai adferiad gorau posibl o fewn gwasanaethau mewn/allgymorth ac o fewn lleoliad cartref unigolyn. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys grwpiau cymorth, mynd i'r afael ag anghenion ymarferol, emosiynol a chorfforol hirdymor unigolion yn ogystal â brocera mynediad i wasanaethau eraill.
13	**Camddefnyddio sylweddau** https://forms.office.com/r/pUQbpPSuju	Diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion camddefnyddio sylweddau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
14	**Trais yn erbyn menywod a dynion, ymosodiadau domestig, trais rhywiol ac iechyd rhywiol** https://forms.office.com/r/kDRppWt0Zk	Mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd ynghylch iechyd rhywiol (gan gynnwys HIV, terfyniadau ac ati), cymorth seicorywiol, trais domestig a thrais rhywiol. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau arbenigol i oedolion a phlant sydd wedi profi'r trawma sy'n gysylltiedig â threisio a cham-drin rhywiol
15	**Menter Werdd** https://forms.office.com/r/E1e44XGack	Cwrdd â'r agenda werdd, gwella cymunedau. Wrth symud ymlaen, rydym yn rhagweld y bydd darparwyr yn gweithio tuag at allyriadau carbon sero net a phrosiectau ecogyfeillgar eraill er budd yr ardal gyfan.
16	**Cludiant** https://forms.office.com/r/fYTnEc91LX	Cefnogi mynediad i wasanaethau iechyd a gofal ar draws y rhanbarth. Gall hyn fod er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mewn canolfannau rhagoriaeth a lleoliadau eraill i gael y driniaeth orau ar gyfer eu cyflyrau. Yn ganolog i hyn fydd ffocws ar atebion trafnidiaeth gynaliadwy.
17	**Mwyhau lleisiau tawel** https://forms.office.com/r/EKAv4j0vnS	Gwrando ar ac adlewyrchu anghenion penodol grwpiau gan gynnwys y digartref, cyn-filwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a'r rhai o fewn grwpiau nodweddion gwarchodedig.
